

Ffrwd Gwaith	Diweddariad	Camau i'w cymryd
Gwaith Mapio	<p>Mae grŵp wedi ei sefydlu ac wedi dechrau ar y gwaith o fapio'r hyn sy'n digwydd yn barod er mwyn adnabod unrhyw fylchau sy'n bodoli. Mae'r grŵp yn cynnwys swyddogion allweddol o'r Uned Datblygu'r Gweithlu, Adnoddau Dynol a Darparu Mewnol a rhagwelir y byddwn yn tynnu eraill i mewn yn ystod y misoedd nesaf.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Disgwylir y byddwn wedi cwblhau'r gwaith erbyn mis Hydref ac y byddwn mewn sefyllfa i ychwanegu at a chyfoethogi'r rhaglen waith yn dilyn o hynny.
Tal ac Amodau Gwaith	<p>Ar sail egwyddorion Ffordd Gwynedd mae'r gwaith trawsnewid Gofal Cartref wedi adnabod gwastraff yn y trefniadau gweithio cyfredol. Rydym o'r farn fod cyfle gwirioneddol i wella lefelau cyflog gweithwyr rheng flaen y sector annibynnol gan anelu i'w cysoni gyda lefelau cyflog y gweithlu mewnol.</p> <p>Mae'r gwaith hwn yn ein harwain hefyd at yr angen i gael perthynas waith aeddfed a chytundebau mwy addas gyda darparwyr annibynnol. Bydd y ffordd y byddwn yn comisiynu Gofal Cartref i'r dyfodol yn newid. Yn hytrach na chomisiynu fesul unigolyn a thalu'r darparwr am bob awr sy'n cael ei ddarparu, fe fyddwn yn comisiynu ar sail canlyniadau i unigolion ac yn cytundebu gyda darparwyr ar sail ardaloedd daearyddol dros gyfnod penodol o amser.</p> <p>Bydd y ffordd newydd o weithio a'r trefniadau comisiynu i'r dyfodol yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r darparwr. Rhagwelir y byddai hyn yn arwain at gael gwared o'r angen i weithwyr gofal cartref weithio patrymau gwaith anghynladwy fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.</p> <p>Mae anghysondeb rhwng tal ac amodau gwaith yn bodoli mewn meysydd eraill megis Tai a Chefnogaeth a Chartrefi Preswyl / Nyrsio. Mae'r sector Preswyl / Nyrsio annibynnol yn adrodd yn gyson pa mor anodd ydyw i recriwtio staff newydd a chadw staff profiadol yn wyneb y telerau gwaith sy'n cael eu cynnig gan y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor.</p> <p>Gan gydnabod fod yr anghysondeb sy'n bodoli ar draws y maes gofal rhwng y sector fewnol a'r sector annibynnol angen ei flaenoriaethu, dylid hefyd gofyn y cwestiwn sylfaenol os yw hyd yn oed lefelau cyflog ein gweithlu mewnol yn adlewyrchu'r hyn ddylent fod o ystyried y disgwyliadau a'r hyn sy'n ofynnol ohonynt yn eu swyddi erbyn hyn. I'r perwyl hyn fe fyddwn yn gofyn am asesiad o gyfrifoldebau staff rheng flaen ein</p>	<ul style="list-style-type: none"> • O Ebrill 2021 ymlaen byddwn wedi cysoni lefelau cyflog gofalwyr cartref ar draws y sectorau. • O Ebrill 2021 ymlaen rydym yn disgwyl gweld y bydd gan ddarparwyr annibynnol ar draws Gwynedd y gallu i roi cytundebau tymor hir i staff gan ymrwymo hefyd i oriau cytundeb penodol. Ni fyddwn felly yn disgwyl gweld cytundebau 'Zero hours' yn cael eu rhoi i staff yng Ngwynedd. • O Ebrill 2021 ymlaen byddwn yn disgwyl gweld patrymau gwaith gofalwyr cartref yn gwella yn sylweddol ac yn newid i fod yn gweithio shifftiau penodol yn ystod y diwrnod. • Yn benodol yn y maes Preswyl a Nyrsio mae gwaith ar gychwyn i geisio cael dealltwriaeth o beth yw'r gwir gost o ddarparu'r gofal. Mae hyn yn cael sylw a blaenoriaeth yn rhanbarthol yn ogystal. Rhagwelwn y bydd y rhaglen waith yma yn dod yn fwy eglur dros y misoedd nesaf.

	<p>gweithlu mewnol. Ni fydd canlyniad asesiad o'r fath o reidrwydd yn arwain at gynnydd mewn lefelau cyflog.</p>	
<p>Cynllunio'r Gweithlu</p>	<p>Sgiliau Arbenigol – Rydym yn barhaus yn ceisio adnabod bylchau sy'n bodoli o ran sgiliau arbenigol, ac un ffordd amlwg o wneud hynny yw dadansoddi patrymau sy'n amlygu eu hunain wrth fod yn ceisio recriwtio. Un enghraifft benodol o hyn yw rôl y Therapydd Galwedigaethol. Mewn ymateb i hyn mae enghreifftiau da yn bodoli o ran cydweithio gyda Cholegau megis Prifysgol Glyndwr sydd wedi arwain at ddatblygu cwrs Therapydd Galwedigaethol rhan amser. Fodd bynnag, yn ogystal â chreu cyfleoedd i hyfforddi a datblygu y gweithlu cyfredol, rydym o'r farn y dylem roi'r ffocws hefyd ar feithrin ein talent ein hunain trwy gynlluniau megis hyfforddeion proffesiynol, prentisiaethau a phrofiadau gwaith.</p> <p>Enghraifft arall o drefniadau cydweithio cadarn sy'n bodoli ar gyfer datblygu talent yn lleol yw'r lleoliad sy'n cael ei gynnig yng Ngwynedd i fyfyrwyr y cwrs MA Gwaith Cymdeithasol ble mae'r Cyngor yn recriwtio ar gyfartaledd 80% o'r myfyrwyr sy'n cael eu lleoli hefo'r awdurdod bob blwyddyn. Yn ogystal a hyn mae trefniant mewn lle i gefnogi hyfforddai proffesiynol Gwaith Cymdeithasol yn flynyddol.</p> <p>Yn benodol o ran y cynllun prentisiaethau fe fyddwn yn parhau i ddylanwadu ar y rhaglen gan sicrhau bod y maes gofal yn cael ei flaenoriaethu. Byddwn yn dylanwadu'n benodol trwy Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol er mwyn datblygu'r rhaglen i gynnwys mwy o gyfleoedd ar lefelau uwch megis rolau Gweithwyr Cymdeithasol a Therapyddion Galwedigaethol.</p> <p>Gweithlu'r dyfodol - Mae llawer o waith da wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf sydd ynghlwm a threialu rolau gwahanol ar gyfer y dyfodol, ac yn benodol yn rhoi'r ffocws ar rolau sy'n gwneud cyfuniad o dasgau 'Iechyd' a thasgau 'Gofal'. Fodd bynnag, wrth adlewyrchu mae'n debyg fod yr hyn sydd wedi ei dreialu hyd yma wedi cael ei ddylunio ar sail ein bod yn meddwl ein bod yn gwybod beth sydd ei angen, yn hytrach na'n bod wedi dylunio rôl sy'n ymateb i'r galw sydd ar ein gwasanaethau. Yn ogystal a chynllunio i'r dyfodol mae gyrwyr a cyfleoedd amlwg yn codi ble mae angen ymateb iddynt. Enghraifft o hynny yw ymdrechion y Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau arian trwy Fargen Dwf Gogledd Cymru i uwch sgilio gweithwyr gofal mewn Cartrefi Preswyl / Nyrsio i feithrin sgiliau clinigol er mwyn ymateb i'r diffyg Nyrsys sy'n bodoli.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn gwneud cais am arian dros dro i sefydlu cronfa benodol ar gyfer sicrhau fod gennym yr adnoddau sydd eu hangen arnom i feithrin talent yn lleol yn ystod y cyfnod o wasgfa ariannol sy'n parhau. Fel rhan o hyn byddwn hefyd yn cyflwyno cais am Hyfforddai Proffesiynol Therapydd Galwedigaethol. • Yn ystod mis Medi 2019 bydd x5 prentis lefel 2 Gofal, ac x1 prentis lefel 5 (rheolwr) yn cychwyn. • Mae darn o waith penodol ac arbenigol wedi ei gomisiynu yn ddiweddar i fod yn deall beth yw'r galw sydd ar ein gwasanaethau erbyn hyn, a beth felly yw'r math o rôl sydd ei angen i'r dyfodol. Rhagwelir y bydd y gwaith yma yn dechrau yn ystod Gorffennaf / Awst 2019. • Ar ôl treialu'r cynllun mewn rhai ardaloedd penodol, rydym mewn sefyllfa i sefydlu'r rôl ym mhob un o'r pum ardal hyd at Mawrth 2021. Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn asesu llwyddiant y

	<p>Rôl y dylid tynnu sylw ato'n benodol yw'r Cysylltydd Cymunedol. Mae arian grant y llywodraeth wedi ein galluogi i leoli aelodau o'r 3ydd sector yn ein timau Timau Adnoddau Cymunedol. Mae'r rôl yn golygu gweithio gyda chymunedau a mudiadau yn lleol er mwyn adnabod yr hyn sydd ar gael i drigolion, a thrwy hynny hefyd hybu gweithgarwch cymunedol i ymateb i rai o'r bylchau sy'n bodoli. Mae rolau eraill sy'n hybu llesiant hefyd yn cael eu treialu yng Ngwynedd a thu hwnt a bydd angen cadw golwg ar y datblygiadau hyn yn ogystal.</p> <p>Data - Mae gwaith yn mynd rhagddo ar draws yr awdurdod i adnabod swyddi allweddol, cofnodi'r rhwystrau a chyfleoedd i'r dyfodol. Er bod gennym drosolwg wybodaeth staffio sy'n ein galluogi i wneud penderfyniadau, credwn fod gennym le i wella o ran dadansoddi'r data a'i blethu gyda gwybodaeth comisiynu fyddai yn ein cefnogi i wneud penderfyniadau i'r dyfodol.</p>	<p>cynllun gan ystyried felly ddatblygiad y rôl i'r tymor hir.</p>
<p>Statws, delwedd a phroffil</p>	<p>Rhagwelwn y bydd y gwaith trawsnewid Gofal Cartref heb os yn arwain at wella statws a delwedd swydd y gofalydd cartref i'r dyfodol. Mae'r newid yn golygu ymddiried mewn staff rheng flaen, gofalydd cartref yn dod yn rhan o dîm ehangach o weithwyr lechyd a Gofal, a thrwy hyn amlygu'r llwybrau gyrfa sy'n bosib yn y maes. Rhagwelwn y bydd gwersi i'w dysgu yn amlygu eu hunain o'r gwaith yma ar gyfer meysydd eraill.</p> <p>Am y tro cyntaf mae gofyn cyfreithiol i staff rheng flaen y maes gofal ar draws Cymru fod yn cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Er y sialensiau sydd ynghlwm, megis staff yn gweld fod mwy o ddisgwyliadau a chyfrifoldebau arnynt a dim cydnabyddiaeth ariannol yn dilyn, amcan amlwg y gofyn cyfreithiol yw cyfrannu tuag at godi statws swyddi'r maes yn y tymor hwy. Er mwyn hwyluso a chefnogi'r newid mae'r Cyngor ariannu'r gost cofrestru i staff y Cyngor, yn ogystal hefyd a chyflogi Swyddog Cefnogi Cofrestru dros gyfnod o ddwy flynedd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • O Ebrill 2021 ymlaen rhagwelir y byddwn yn gweld effaith positif y newid hwn ar statws a delwedd y swydd. Wedi dweud hyn rydym yn barod yn hyrwyddo'r ffordd newydd o weithio. • Gofalydd Cartref yn gorfod bod yn gofrestredig erbyn Mawrth 2020. Gweithwyr Preswyl yn gorfod bod yn gofrestredig erbyn Mawrth 2022
<p>Cyfathrebu a Marchnata</p>	<p>Mae 'Cyfathrebu a Marchnata' yn treiddio trwy'r holl ffrydiau gwaith wrth gwrs ac yn gwbl allweddol i lwyddiant ein hymdrechion i recriwtio a chadw ein staff profiadol i'r dyfodol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn tynnu gwybodaeth gweithgarwch cyfathrebu a marchnata at ei gilydd a'i osod ar sail amserlen. Ar ôl gwneud hynny byddwn wedyn yn ystyried beth yw'r bylchau a'r camau nesaf.

Gwyddwn fod llawer o ymdrech a gweithgarwch wedi cymryd lle dros y blynyddoedd diwethaf ond credir y byddai'n fanteisiol cael gwell trosolwg o'r hyn sy'n digwydd o rŵan ymlaen. Credir y byddai tynnu gwybodaeth at ei gilydd yn rhoi'r cyfle i dargedu yn well a sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o amser ac adnoddau.

Er bod amryw o ddeunyddiau marchnata yn cael eu datblygu ar lefel lleol a chenedlaethol, credir y byddai cael gafael tynnach ar yr hyn sy'n digwydd yn ein helpu i benderfynu lle allwn wella ein hymdrechion i'r dyfodol. Noder y bydd swydd newydd rhanbarthol 'Cydlunydd Gyrfa mewn Gofal' wedi cael ei lleoli yng Ngwynedd ac yn cychwyn yn fuan.

- Dros y 6 mis nesaf fe fyddwn yn ystyried addasrwydd y deunyddiau sydd gennym ar gyfer marchnata a chyfathrebu, gan ddatblygu ein deunyddiau ein hunain yn unol a'r angen.
- Byddwn yn ystyried yr adnodd dros dro fydd ei angen arnom ar gyfer ymgymryd â'r gwaith dechreuol sydd angen ei wneud o ran sefydlu trefniadau a thynnu pethau at ei gilydd.

Fe fyddwn yn monitro cynnydd y rhaglen waith uchod trwy adrodd yn gyson i'r Cyfarfod Monitro Perfformiad, yn ogystal â thrwy adroddiadau perfformiad yr Aelod Cabinet sy'n cael ei gyflwyno yn rheolaidd i'r Cabinet. Defnyddir y fforymau hyn i adrodd ar lwyddiant y gwaith ond hefyd ar gyfer amlygu unrhyw rwystrau sy'n ein hatal rhag cyflawni.